



Adroddiad ar

**Ysgol Uwchradd Bodedern
Bodedern
Bro Alaw
Ynys Môn
LL65 3SU**

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2014

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/12/2014

Cyd-destun

Ysgol naturiol ddwyieithog ar gyfer disgyblion 11-18 oed yw Ysgol Uwchradd Bodedern sy'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Môn. Mae 618 ar y gofrestr gyda 102 yn y chweched dosbarth.

Lleolir yr ysgol ym mhentref Bodedern yn ardal orllewinol Sir Fôn ac mae'n gwasanaethu dalgylch eang iawn.

Mae 19.4% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.5%. Mae 19% o'r disgyblion yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion ar draws yr ystod gallu. Mae 21% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol yr ysgol. Mae hyn yn ffigwr tebyg i'r canran cenedlaethol. Mae 3.5% ohonynt ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigwr hyn yn uwch na'r canran cenedlaethol. Mae'r awdurdod lleol yn gofalu am saith disgybl.

Daw 67% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith ond mae mwyafrif o'r disgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfatebol. Nid oes un disgybl yn derbyn cymorth ar gyfer dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn Ebrill 2007. Mae'r uwch dim rheoli hefyd yn cynnwys dirprwy bennaeth a dau bennaeth cynorthwyol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Uwchradd Bodedern yn 2014 - 2015 yw £5,421. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Ynys Môn yw £5,421 a'r lleiafswm yw £4,338. Mae Ysgol Uwchradd Bodedern yn y safle cyntaf o'r pum ysgol uwchradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Rhagorol

Perfformiad presennol

Mae Ysgol Uwchradd Bodedern yn ysgol dda oherwydd:

- bod perfformiad yn y rhan fwyaf o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 dros y tair blynedd diwethaf yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg;
- yn y rhan fwyaf o wersi, mae disgyblion yn dangos cymhelliant amlwg ac yn barod i weithio'n syth;
- bod ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith;
- bod y profiadau dysgu yn cynnig ystod o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion;
- bod ansawdd yr addysgu yn gyffredinol uchel; ac
- yr ansawdd uchel i'r gofal, cymorth ac arweiniad a'r effaith mae hyn yn ei chael ar safonau a lles disgyblion.

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella Ysgol Uwchradd Bodedern yn rhagorol oherwydd:

- arweinyddiaeth ysbrydoledig y pennaeth;
- gweledigaeth glir iawn yr uwch dim arwain a'r ffocws parhaus ar wella safonau;
- y disgwyladau uchel gan arweinwyr ar bob lefel a'r ffordd y mae rhan fwyaf o'r rheolwyr canol yn cyflawni eu rolau;
- ansawdd uchel y corff llywodraethol a'r ffordd maent wedi herio a hybu safonau uchel;
- y prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella cynhwysfawr, cyson, trylwyr ac effeithiol; a'r
- tuedd o welliant yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion yng nghyfnod allweddol 4.

Argymhellion

- A1 Codi safonau mathemateg yng nglyfnod allweddol 4
- A2 Codi cyflawniad disgyblion mwy abl a thalentog
- A3 Rhannu'r arfer orau yn ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol
- A4 Gwella ansawdd yr adroddiadau i rieni

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn dangos cynnydd ym mhob un o'r dangosyddion pwysig wedi cwmp sylweddol yn 2010. Yn 2014, mae data dros dro yn dangos bod perfformiad mewn llawer o'r dangosyddion yn uwch na chyfartaledd y teulu a'r rhan fwyaf ohonynt ymysg yr hanner uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.

Yn 2014, mae data dros dro yn dangos bod perfformiad yn y dangosydd sy'n cynnwys 5 TGAU graddau A* - C yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi disgyn ychydig o gymharu â pherfformiad yn 2013. Fodd bynnag, mae'r perfformiad dal yn gosod yr ysgol yn yr hanner uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae'r darlun wrth gymharu â'r teulu o ysgolion yn llai ffafriol gyda pherfformiad yn is na chyfartaledd y teulu ym mhob blwyddyn ac eithrio 2013. Mae cynnydd disgyblion rhwng y cyfnodau allweddol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2013, roedd yn dda iawn yn y dangosyddion sy'n cynnwys mathemateg a Chymraeg neu Saesneg ond yn foddhaol yn y dangosyddion sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y dangosydd sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau wedi cynyddu'n sylweddol. Yn 2014, mae data dros dro yn dangos bod perfformiad yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion am y tro cyntaf ers 2009 ac yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.

Yn 2014, mae data dros dro yn dangos bod perfformiad myfyrwyr yn y chweched dosbarth yn dda gyda phob un disgybl yn cyrraedd y trothwy lefel 3. Mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach yn sylweddol uwch nag ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae pob disgybl wedi gadael yr ysgol â chymhwyster cydnabyddedig. Wedi Blwyddyn 11 mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn aros mewn addysg, gyflogaeth neu hyfforddiant amser llawn.

Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill graddau A* - C mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth o'u cyfuno wedi cynyddu'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf wedi cwmp sylweddol yn 2010. Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol ymysg yr hanner uchaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim ond yn is na chyfartaledd y teulu. Gwelir cynnydd tebyg yn y pynciau craidd yn unigol ac eithrio mathemateg lle roedd perfformiad wedi gwella yn 2012 a 2013 ond wedi lleihau eleni a nawr yn gosod yr ysgol ymhlith y chwarter isaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y rhan fwyaf o'r pynciau yn dangos cynnydd da yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch a lefel 7 neu'n uwch yn llai cryf gyda pherfformiad lleiafrif o'r pynciau yn gosod yr ysgol yn yr hanner is o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.

Yng nghyfnod allweddol 4, yn 2013, roedd gwahaniaeth mawr rhwng perfformiad bechgyn a'r merched mewn Saesneg a Chymraeg. Fodd bynnag, yn 2014, mae data dros dro yn dangos bod perfformiad bechgyn wedi gwella ychydig a pherfformiad merched wedi lleihau rhywfaint, felly mae'r bwlbch wedi cau. Yn 2014, mewn lleiafrif o'r dangosyddion pwysig, mae bechgyn yn perfformio'n well na'r merched.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion sydd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cynyddu'n sylweddol. Ers 2013, mae'n cymharu'n dda iawn â pherfformiad yr un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg.

Er bod dros hanner o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol gyda medrau darllen is na'r hyn a ddisgwylir, yn gyffredinol maent yn gwneud cynnydd da iawn ac mae hyn yn sicrhau bod ganddynt fynediad llawn i'r cwricwlwm.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae disgyblion yn dangos cymhelliant amlwg ac yn barod i weithio'n syth. Maent yn awyddus i lwyddo, dysgu a datblygu medrau newydd ac yn gallu adalw gwybodaeth flaenorol yn effeithiol. Mae gan ddisgyblion falchder amlwg yn eu gwaith. Mae cyflwyniad llawer o ddisgyblion yn ddaclus a phrin yw'r bylchau yn eu gwaith. Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth a chymhwyso'r dysgu i sefyllfaoedd newydd a bywyd bob dydd. Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd ardderchog. Maent yn cymhwyso'u gwybodaeth bynciol o fewn sefyllfaoedd anghyfarwydd yn gyflym ac yn ymateb yn dda iawn i dasgau sy'n gynyddol heriol.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gweithio'n gynhyrchiol mewn parau a grwpiau ac yn trafod a rhannu gwybodaeth yn aeddfed er mwyn cefnogi a helpu'i gilydd i ddatblygu ymhellach. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn ansicr ynghylch sut i weithio'n effeithiol mewn grŵp ac yn tueddu i weithio'n unigol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn hapus i gyfrannu ar lafar, ac mae eu brwdfrydedd yn nodwedd amlwg o'r gwersi. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, mae'r merched yn dawel ac yn ddihyder. Yn yr achosion hyn, maent yn tueddu i fod yn oddefol ac yn osgoi cyfrannu ar lafar. Mae lleiafrif o'r disgyblion yn cynnig atebion estynedig ar lafar gan ddefnyddio geirfa gywir a chyfoethog i fynegi barn a chyfiawnhau safbwyntiau.

Ceir strwythur priodol i waith ysgrifenedig llawer o ddisgyblion ac maent yn gwneud defnydd addas o derminoleg a geirfa bynciol. Mewn lleiafrif o bynciau, mae disgyblion yn ailddrafftio a mireinio'u gwaith ysgrifenedig yn rheolaidd gan gywiro gwallau sillafu a gramadeg ac ymateb yn gadarnhaol i sylwadau'r athro. Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu at ystod o wahanol bwrsasau ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i strwythuro'u gwaith er mwyn bod yn addas i gynulleidfa. Fodd bynnag, mae ysgrifennu estynedig ychydig o ddisgyblion yn gryno iawn ac maent yn cael trafferth trefnu eu gwaith. O ganlyniad, maent yn tueddu i ysgrifennu cyfres o frawddegau byr yn hytrach na llunio paragraffau. Mae sillafu mwyaf o'r disgyblion yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Mae ganddynt afael dda ar gystrawen ac,

yn gyffredinol, mae treigliadau'n gywir. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion ar draws yr ystod gallu yn cael trafferth sillafu geirfa bob dydd yn gywir. Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn dda. Maent yn darllen yn rhugl ac yn hyderus. Nodwedd amlwg o waith yr ysgol yw bod llawer o ddisgyblion yn hollol ddwyieithog erbyn diwedd Blwyddyn 11.

Mae disgyblion yn ymarfer ystod addas o fedrau rhifedd, a llawer ohonynt yn hyderus wrth ddatrys problemau syml, mesur graddfeydd, llunio graffiau a siartiau a chyfrifo fformiwlâu syml.

Lles: Da

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'r rhan fwyaf yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan frwdfrydig mewn amrywiaeth eang o weithgareddau hybu ffitrwydd, megis gweithgareddau saethyddiaeth a physgota. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd cadw'n heini a byw'n iach. Mae llawer o ddisgyblion yn manteisio'n dda ar y cyfleoedd niferus i gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu hwnt i'r oriau ysgol arferol.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi gwella'n raddol dros y pedair blynedd diwethaf, gyda'r cynnydd mwyaf yn y flwyddyn ddiwethaf. Yn 2014, mae data dros dro yn gosod cyfradd presenoldeb yr ysgol yn yr hanner uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae canran y disgyblion sydd yn absennol yn gyson wedi lleihau yn ystod yr un cyfnod ac mae nawr yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion.

Mewn gwersi, mae ymddygiad a chymhelliant rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd gwersi'n brydlon ac yn ymroi i'w gwaith yn syth. Mae bron pob un yn dangos parch tuag at ei gyd-ddisgyblion a staff yr ysgol.

Drwy amrywiaeth eang o grwpiau, megis fforymau dosbarth, blwyddyn, y grŵp bwyd a ffitrwydd, grŵp gwyrdd a chyingor yr ysgol, mae disgyblion yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i lawer o agweddau o fywyd yr ysgol. Cyfranna'r disgyblion yn effeithiol i benderfyniadau yn ymwneud â chyfleusterau'r ysgol, codi arian i elusennau a chynllunio a darparu gwelliant yn narpariaeth y ffreutur. Maent hefyd yn cyfrannu'n fuddiol i benderfyniadau yn ymwneud â dysgu ac addysgu.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'r medrau angenrheidiol ar gyfer y cam nesaf o'u dysgu.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae cwricwlwm yr ysgol yn ymdrin yn effeithiol â'r gofynion statudol gan gynnig profiadau eang, cytbwys a pherthnasol i'r disgyblion. Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, mae'r disgyblion yn elwa o'r ystod eang o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol sydd ar gael. Mae rhaglen eang o weithgareddau allgyrsiol a chymunedol sy'n ehangu profiadau'r disgyblion ymhellach, gan gynnwys ystod o glybiau ar ôl ysgol, clwb gwyddbwyll, clwb celf, a menter yr ifanc.

Mae adrannau wedi gweithio'n effeithiol i fapio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd i gynlluniau gwaith cyfnod allweddol 3 gydag ychydig o adrannau yn defnyddio codau i groesgyfeirio at llinynau penodol o fewn y fframwaith. Mae'r ysgol yn cynnig ystod o gyfleoedd buddiol i gynorthwyo'r disgyblion i ddatblygu eu medrau llythrennedd y tu allan i'r cwricwlwm ffurfiol er mwyn atgyfnerthu'r gwaith effeithiol sydd yn digwydd mewn llawer o wersi. Mae trefniadau i godi safonau rhifedd yn datblygu'n dda. Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn gweithredu'n effeithiol i gwrdd â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Rhoddir sylw amlwg i'r Cwricwlwm Cymreig drwy gynlluniau gwaith adrannol, a'r wythnos 'sgiliau'. Yn ogystal, gwahoddir beirdd, llenorion, actorion ac arlunwyr Cymraeg i weithio gyda'r disgyblion. Galluoga hyn i'r disgyblion feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'u cymuned, eu hardal a'u gwlad sy'n eu cynorthwyo i ddod yn ddinasyddion cyflawn.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang yn datblygu'n effeithiol o fewn cwricwlwm yr ysgol. Mae'r agweddau penodol a gynhwysir o fewn y cwricwlwm, er enghraifft yn ystod sesiynau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, yn gwneud cyfraniad amlwg i'r maes hwn.

Addysgu: Da

Ym mron pob gwrs, mae gan athrawon berthynas weithio dda iawn gyda'r disgyblion. Mewn llawer o wersi, ceir ffocws parhaus ar gynnig profiadau gwerthfawr i'r disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, ymddygiad a'u cymhelliant. Mae gan staff yr ysgol, gan gynnwys y tîm cymorth, wybodaeth bynciol dda iawn. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn fodolau iaith llwyddiannus. Mae llawer ohonynt yn defnyddio iaith safonol ar lafar ac yn ysgrifenedig i annog safonau tebyg ymysg y disgyblion.

Mewn ychydig o wersi, ceir cynllunio dychmygus, a chyflwyniadau bywiog a brwdfrydig. Gwneir defnydd medrus a chreadigol iawn o ystod o adnoddau, gan gynnwys offer technoleg gwybodaeth i ysgogi ymateb a hyrwyddo cynnydd rhagorol. Yn y gwrsi hyn, mae tasgau ysgogol a thempo byrlymus yn sicrhau rhediad cyflym i'r wers.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn sicrhau her briodol i'r gwaith. Mae cynllunio gofalus a pharatoi manwl yr athro yn sicrhau bod gweithgareddau a thasgau'n cynnal sylw a diddordeb y disgyblion yn dda. Yn gyffredinol, mae'r athrawon yn holi'r disgyblion yn drylwyr i brocio ac ymestyn eu dealltwriaeth.

Mewn ychydig o wersi, er bod y cynllunio'n fanwl, nid oes digon o ystyriaeth i anghenion carfanau penodol o ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r tasgau'n rhy gymhleth i leiafrif o ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol neu mae rhediad y wers yn rhy araf a'r tasgau ddim yn ddigon heriol i ymestyn dealltwriaeth a medrau'r disgyblion mwy abl.

Mae marcio'n gyfoes ac, fel arfer, yn cynnwys arweiniad clir i ddisgyblion ar yr hyn sy'n dda a'r hyn sydd rhaid iddynt ei wneud i wella ansawdd eu gwaith. Ers Nadolig 2013, yn ogystal â'r marcio arferol, cyflwynwyd trefn newydd o gynnig aborth i

ddisgyblion. Mae'r adborth yn briodol ac yn cyfeirio'n ôl at feini prawf llwyddiant a rennir o flaen llaw gyda'r disgyblion. Mewn llawer o wersi, mae 'r athrawon yn cynnig adborth llafar defnyddiol iawn i'r disgyblion ar sut i wella'u gwaith ac mae hyn yn gryfder.

Mae gan yr ysgol drefn fanwl i dracio cynnydd disgyblion. O ganlyniad, mae arweinwyr a staff yn adnabod tangyflawniad neu wendidau penodol, ac yn ymateb yn syth, trwy sesiynau mentora neu gefnogaeth ychwanegol. Ers mis Medi, mae'r ysgol wedi cynyddu nifer yr arolygiadau yng nghyfnod allweddol 4 i chwe gwaith y flwyddyn. Mae hyn yn caniatáu i'r ysgol gofnodi yn fwy aml gynnydd unigol, pynciol ac ysgol gyfan a threfnu cynhaliaeth parod a chynhwysfawr ar gyfer unigolion.

Mae trefniadau adrodd yn ôl i rieni yn briodol ac yn bodloni gofynion statudol. Fodd bynnag, mae anghysondeb yn ansawdd yr adroddiadau a dim ond ychydig o'r adroddiadau pynciol sydd yn cynnig digon o arweiniad ar sut y dylai'r disgyblion wella eu gwaith.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Nodwedd gref o ddarpariaeth yr ysgol yw'r trefniadau effeithiol a chynhwysfawr i hyrwyddo lles disgyblion ac mae strwythur cryf a chynhaliol yn elfen bwysig o hyn. Mae'r ysgol yn darparu cymorth arbennig i grwpiau o ddisgyblion sy'n fregus ac o dan anfantais. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb unigolion ac wedi arwain at welliannau mewn safonau, agweddau, ymddygiad, hyder a lles y disgyblion hyn. Mae gan yr ysgol dîm effeithiol o anogwyr dysgu sy'n darparu cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel. Maent yn cyfathrebu'n gyson â disgyblion y grwpiau ymyrraeth ac yn cynnig arweiniad effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth i hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol, diwylliannol a chymdeithasol yn dda iawn. Mae'r ysgol yn annog disgyblion yn gyson i werthfawrogi'r celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol eraill. Maent yn codi ymwybyddiaeth ac yn dathlu llwyddiannau'n effeithiol drwy'r gwasanaethau boreol, cyhoeddiadau dyddiol a'r hysbysfyrddau. Mae gan yr ysgol drefniadau cynhwysfawr ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae disgyblion yn derbyn cyngor a chyfarwyddyd addas wrth ddewis cyrsiau ar gyfer cyfnod allweddol 4 ac ôl 16.

Mae gan yr ysgol system gadarn i fonitro presenoldeb. Mae cyswllt cyson â rhieni ac ystod eang o strategaethau yn cael effaith gadarnhaol ar leihau absenoldebau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder arbennig. Drwy system dracio gynhwysfawr, profion diagnostig a monitro tynn ac effeithiol, ceir darlun cyflawn o anghenion y disgybl. Mae adnabyddiaeth yr ysgol o anghenion y disgyblion hyn a'r ddarpariaeth a chymorth ychwanegol yn sgil y wybodaeth hon yn cael effaith gadarnhaol iawn ar wella eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae Ysgol Uwchradd Bodedern yn gymuned hapus ag iddi ethos cynhwysol a theuluol. Anogir y disgyblion hŷn i gymryd cyfrifoldeb o fewn cymuned yr ysgol a chydweithio'n effeithiol gyda staff i hybu'r ethos hwn. Esiampl o hyn yw'r 'Bandits Gwrth-fwlio' lle mae myfyrwyr y chweched dosbarth yn rhoi cymorth buddiol i ddisgyblion. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb yn effeithiol iawn. Mae gan yr holl ddisgyblion, beth bynnag yw eu hanghenion, fynediad llawn a chyfartal i'r cwricwlwm.

Mae'r adeiladau'n cael eu cadw'n lan ac yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol. Mae cyflwr y toiledau, cyfleusterau newid, a'r ffreutur yn dda iawn. Mae gan yr ysgol feysydd allanol eang a chaeau chwarae amrywiol, sy'n cyfoethogi profiadau disgyblion. Ceir cyfleusterau mewnol o ansawdd uchel, megis y teleganolfan, theatr aml-bwrpas a chanolfan gymunedol Bro Alaw.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Rhagorol
--	-----------------

Arweinyddiaeth: Rhagorol

Mae arweinyddiaeth ysbrydoledig y pennaeth yn greiddiol i lwyddiant yr ysgol. Gyda chefnogaeth werthfawr y dirprwy bennaeth a chydweithio ardderchog gydag aelodau newydd yr uwch dim arwain, mae hi'n arwain drwy esiampl. Mae dylanwad gwaith y pennaeth a'r dirprwy bennaeth i'w gweld ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn rhannu ei gweledigaeth sy'n mynnu ffocws parhaus ar herio safonau cyflawniad o fewn cyd-destun cynhwysol a chefnogol. Medda'r uwch dim arwain ar weledigaeth gadarn iawn a gaiff ei rhannu'n hynod o lwyddiannus gyda'r holl staff a phartneriaid eraill yr ysgol.

Mae ansawdd a chysondeb arweinyddiaeth ar bob lefel yn gryfder amlwg. Nodweddir yr arweinyddiaeth gan naws tîm cryf a chynhwysol a chan y modd y caiff arweinwyr, ar bob lefel, eu herio a'u cefnogi i weithredu'n fwy effeithiol. Mae hyn wedi arwain at bennu disgwyladau uchel a chilir ac at lefel uchel o herio perfformiad staff ac adrannau unigol. O ganlyniad, gydag ychydig eithriadau, bu cynnydd parhaus yn ansawdd deilliannau cyfnod allweddol 4.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad cynhwysfawr ac effeithiol sydd yn llwyddo i herio a gwella perfformiad staff ar bob lefel. Mae'r ffocws clir, amcanion heriol a datblygiad proffesiynol cynhwysfawr wedi cael effaith ar godi safonau mewn llawer o bynciau ar draws y cwricwlwm.

Ceir tîm o arweinwyr canol sydd yn wybodus ac yn cyflawni eu rolau'n effeithiol iawn.

Mae defnydd arweinwyr o ddata a gwybodaeth dracio fewnol yn cyfrannu'n arwyddocaol at wella perfformiad, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4.

Cynhelir rhaglen o gyfarfodydd cyson. Mae agenda gytun yn sicrhau ffocws parhaus ar lefel ysgol gyfan ac adrannol ar godi safonau a chysoni ansawdd yr addysgu ac

asesu. O ganlyniad, mae gan aelodau o staff unigol ddealltwriaeth lawn a chadarn o'r disgwyliadau sydd arnynt ac o'u hatebolrwydd personol am lwyddiant yr ysgol.

Mae'r ysgol yn talu sylw ardderchog i flaenoriaethau cenedlaethol, megis rhifedd a llythrennedd, ac mae'r gwaith i hyrwyddo medrau llythrennedd disgyblion yn gryfder amlwg. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y difreintiedig a'r gred mewn cynhwysiad yn gryf iawn ac yn rhan annatod o genhadaeth yr ysgol. Mae'r gwaith manwl a ffocws parhaus wedi cael effaith arbennig ar wella perfformiad disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.

Mae'r llywodraethwyr yn brofiadol, yn adnabod yr ysgol yn dda iawn ac yn gefnogol iawn iddi. Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol yn llwyddiannus iawn ac yn rhoi ystyriaeth lawn i ddeddfwriaeth ac arweiniad perthnasol. Mae strwythur o bwyllgorau priodol. Mae'r corff llawn yn trafod yn fanwl perfformiad yr ysgol a safonau adrannau unigol ac yn gyfrifol am herio a hybu safonau uchel. Maent yn gweithredu'n dda iawn fel cyfaill beirnaidol ac yn herio'r ysgol yn barhaus, yn ogystal â chwarae rôl allweddol wrth osod cyfeiriad strategol yr ysgol.

Gwella ansawdd: Rhagorol

Mae cysondeb a thrylwyrredd y prosesau gwella ansawdd yn gryfder amlwg yng ngwaith yr ysgol.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol, eu staff a disgyblion yn dda iawn. Ceir prosesau gwella ansawdd cynhwysfawr, systematig a thrylwyr er mwyn arfarnu'r holl agweddau ar waith yr ysgol. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth ardderchog o'r cryfderau ac unrhyw feysydd i'w mireinio neu wella ymhellach. Ceir cydberthynas agos iawn rhwng deilliannau'r arolygiad a chanfyddiadau'r ysgol, yn enwedig mewn meysydd pwysig megis safonau, addysgu ac arweinyddiaeth. Mae cysondeb yn y prosesau sicrhau ansawdd ar bob lefel yn gryfder arwyddocaol. Mae hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at sicrhau bod pawb yn ffocysu'n barhaus ar flaenoriaethau'r ysgol. O ganlyniad, mae ansawdd yr addysgu'n gyson uchel ar draws yr ysgol ac mae cyrhaeddiad y disgyblion yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4 wedi codi'n sylweddol ers 2010.

Mae adroddiad hunanarfarnu yr ysgol gyfan yn gynhwysfawr ac yn adnabod yn glir gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn drylwyr iawn ac yn cynnwys arfarniad manwl ar bob agwedd ar y ddarpariaeth. Mae cysondeb ac ansawdd uchel yr adroddiadau ac ymwybyddiaeth arweinwyr o'r meysydd i'w datblygu yn nodwedd gref o waith yr ysgol.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn casglu ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol yn rheolaidd wrth graffu ar waith disgyblion, arsylwi gwersi a chasglu barn disgyblion a rhieni. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu cyflawni'n drylwyr gan arweinwyr ar bob lefel. Yn ogystal â hyn, maent yn cyflawni dadansoddiadau manwl ac hunanfeirniadol o ddata perfformiad. Mae gan y rhan fwyaf o arweinwyr dealltwriaeth gadarn o sut mae perfformiad yr ysgol yn cymharu ag ysgolion tebyg ac yn hollol ymwybodol o'r meysydd i'w datblygu a pha feysydd i'w blaenoriaethu. Mae dealltwriaeth ddwfn yr arweinwyr a thrylwyrredd y prosesau sicrhau ansawdd wedi

cael effaith arbennig ar agweddau pwysig megis sicrhau cysondeb o ran y marcio ac adborth i ddisgyblion a chynllunio manwl ar gyfer gwersi.

Mae cysylltiad clir a chadarn rhwng hunanarfarnu ar bob lefel a chynllunio ar gyfer gwelliant. Ceir ffocws parhaus a miniog ar wella safonau yn yr adroddiad ysgol gyfan a'r adroddiadau adrannol. Mae'r ffocws hwn yn hollol amlwg ac yn treiddio i'r holl agweddau ar waith yr ysgol. Mae cynlluniau datblygu'r ysgol gyfan yn gynhwysfawr ac yn cynnwys strategaethau priodol i sicrhau bod yr ysgol yn cyflawni ei nodau uchelgeisiol. Mae'r cynlluniau datblygu adrannol yn fanwl ac yn cynnwys targedau clir a mesuradwy, adnoddau pwrpasol a therfynau amser penodol i wirio cynnydd. Mae gan staff yr ysgol, ddealltwriaeth gadarn o'u rôl mewn gwella safonau a darpariaeth yr ysgol.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau effeithiol a llwyddiannus. Mae'r ysgol wedi meithrin perthynas agos â phob darparwr a thrwy hynny wedi datblygu sianelau cyfathrebu effeithiol a phrotocolau i drafod materion ansawdd ac i fonitro cynnydd disgyblion. Mae cysylltiadau buddiol gyda cholegau lleol ac ysgolion uwchradd trwy Y Bartneriaeth Ddysgu sydd yn cyfrannu'n gryf tuag at wella darpariaeth a safonau yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl 16.

Mae'r cysylltiadau cadarn gydag asiantaethau allanol arbenigol, ysgolion cynradd lleol a threfniadau bugeiliol yr ysgol ei hun yn gweithio'n effeithiol i ymateb i ofynion lles yr holl ddisgyblion, yn enwedig disgyblion dan unrhyw anfantais.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda â rhieni trwy adroddiadau cynnydd a chyfarfodydd rheolaidd. Mae gan yr ysgol gynllun gwerth chweil sy'n hyrwyddo cynhwysiad rhieni a gofalwyr.

Mae'r berthynas gymunedol a chysylltiadau gyda chyflogwyr lleol yn cyfrannu'n helaeth at gyfoethogi profiadau'r holl ddisgyblion. Mae'r partneriaethau hyn yn cryfhau dealltwriaeth y disgyblion o'u cymuned leol ac yn gwella eu gwybodaeth am faterion cymdeithasol.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol iawn. Mae'r pennaeth, y swyddog gweinyddol a'r llywodraethwyr yn rheoli'r gyllideb yn ofalus a thrylwyr iawn. Maent yn cydweithio'n effeithiol i fonitro gwariant ac i gynllunio'n hir dymor. Mae'r ddarpariaeth ôl 16 yn gost-effeithiol.

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae gan bob aelod o staff gymwysterau addas, gyda bron pob un yn addysgu ei bwnc arbenigol. Mae'r cymorthyddion dosbarth yn darparu cefnogaeth o ansawdd uchel. Mae'r ysgol yn datblygu'n arbennig fel cymuned ddysgu gref a cheir diwylliant o gydweithio gwerthfawr yn yr ysgol a chydag ysgolion eraill.

Defnyddir trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol iawn i adnabod anghenion datblygu staff. Mae pob athro yn aelod o rwydwaith dysgu proffesiynol sydd yn

Ilwyddiannus wrth ddatblygu blaenoriaethau'r ysgol. Caiff hyn ddylanwad cryf ar allu'r ysgol i wella'n barhaus.

Mae'r grant amddifadedd disgyblion yn cael ei wario'n ddoeth ac yn dylanwadu'n arwyddocaol ar gyflawniad y disgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim.

Yn sgil y deilliannau da i'r disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pynciau craidd wedi cynyddu'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf, ac mae perfformiad ers 2011 yn yr hanner uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Yn 2011 a 2014, roedd perfformiad yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion.

Gwelir cynnydd tebyg yn y pynciau craidd yn unigol. Mae perfformiad mewn Cymraeg ar lefel 5 neu'n uwch yng nghyfnod allweddol 3 yn uwch na chyfartaledd y teulu mewn dwy allan o'r tair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'r perfformiad hyn dal yn gosod yr ysgol ymhlith yr hanner is o ysgolion tebyg yn ystod yr un cyfnod. Mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 5 wedi bod yn agos at gyfartaledd y teulu yn ystod un o'r tair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae perfformiad yn 2013 a 2014 yn gosod yr ysgol yn yr hanner is o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 5 neu'n uwch wedi gwella'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf ac wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu eleni am y tro cyntaf ers 2011. Eleni, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn yr hanner uwch o ysgolion tebyg am y tro cyntaf ers 2012. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 5 neu'n uwch wedi gwella ers 2012, ac mae'n agos iawn at gyfartaledd y teulu. Mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn yr hanner uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.

Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn Cymraeg wedi bod yn well na chyfartaledd y teulu mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf. Yn 2014, mae ymysg yr hanner is o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn Saesneg yn is na chyfartaledd y teulu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn 2014, am y tro cyntaf ers 2011, mae perfformiad yn gosod yr ysgol yn yr hanner is o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch wedi gwella ond mae dal yn is na chyfartaledd y teulu. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn yr hanner is o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Ers 2011, mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch mewn gwyddoniaeth wedi gwella ond yn gyffredinol mae'n is na chyfartaledd y teulu. Mae perfformiad mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf yn gosod yr ysgol yn yr hanner uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn dangos cynnydd ym mhob un o'r dangosyddion pwysig wedi cwmp ym 2010. Yn 2014, mae data dros dro yn dangos bod perfformiad mewn llawer o'r dangosyddion yn uwch na chyfartaledd y teulu a'r rhan fwyaf ohonynt ymysg yr hanner uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.

Yn 2014, mae data dros dro yn dangos bod perfformiad yn y dangosydd sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi disgyn ychydig o gymharu â

pherfformiad yn 2013. Fodd bynnag, mae'r perfformiad dal yn gosod yr ysgol yn yr hanner uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae'r darlun wrth gymharu â'r teulu o ysgolion yn llai ffafriol gyda pherfformiad yn is na chyfartaledd y teulu ym mhob blwyddyn ac eithrio 2013. Mae'r dangosydd pynciau craidd wedi cynyddu'n dda yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac, yn 2013 a 2014, mae ymysg yr hanner uwch o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae'r perfformiad hyn dal yn is na chyfartaledd y teulu.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y trothwy lefel 2 wedi cynyddu'n sylweddol. Yn 2014, mae data dros dro yn dangos bod perfformiad yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion am y tro cyntaf ers 2009 ac yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 1 wedi gwella ers 2011 ac, yn 2012 a 2014, roedd pob un disgybl wedi cyrraedd y lefel hon. Yn 2012 a 2014, roedd perfformiad yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ac yn uwch na chyfartaledd y teulu. Mae perfformiad yn y sgôr bwyntiau gyfartalog ehangach wedi'i chapio wedi gwella'n sylweddol ers 2011 ac wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf. Mae'r perfformiad wedi gosod yr ysgol yn yr hanner uwch o ysgolion tebyg ers 2012.

Mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 2 wedi gwella'n sylweddol ers 2012. Yn 2013 a 2014, roedd perfformiad yn yr hanner uwch o ysgolion tebyg ac eleni am y tro cyntaf yn uwch na chyfartaledd y teulu. Mae perfformiad mewn Cymraeg yn dangos patrwm tebyg ac mae data dros dro yn gosod yr ysgol yn yr hanner uwch o ysgolion tebyg yn 2014 ac yn uwch na chyfartaledd y teulu. Mae data dros dro yn dangos bod perfformiad mathemateg ar lefel 2 wedi disgyn yn 2014. Roedd perfformiad yn 2012 a 2013 yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn gosod yr ysgol yn yr hanner uwch o ysgolion tebyg. Bu gwelliant sylweddol ym mherfformiad gwyddoniaeth ar lefel 2 yn ystod y blynyddoedd ddiwethaf. Yn 2014, mae data dros dro yn dangos bod bron pob disgybl wedi ennill cymhwyster ar lefel 2. Mae'r perfformiad hwn yn gosod yr ysgol yn uwch na chyfartaledd y teulu am y tro cyntaf ac mae yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 4, yn 2013, roedd gwahaniaeth mawr rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn Saesneg a Chymraeg. Fodd bynnag, yn 2014, mae data dros dro yn dangos bod perfformiad bechgyn wedi gwella ychydig a pherfformiad merched wedi gostwng rhywfaint, felly mae'r bwlch wedi cau. Yn 2014, mewn lleiafrif o'r dangosyddion pwysig megis y trothwy lefel 2 gan gynnwys y Gymraeg neu Saesneg a mathemateg, mae bechgyn yn perfformio'n well na merched.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion sydd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cynyddu'n sylweddol yn nghyfnod allweddol 4. Yn 2013, mae'n cymharu'n dda iawn â pherfformiad yr un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg ar gyfer y trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, trothwy lefel 1, sgôr pwyntiau wedi'i chapio, Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ar lefel 2. Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim wedi gwella'n sylweddol ond wedi gostwng ychydig yn y dangosydd pwnc craidd, Cymraeg a mathemateg ar lefel 5 neu'n uwch. Yn 2013, roedd wedi gwella ychydig mewn Saesneg a gwyddoniaeth.

Yn 2014, mae data dros dro yn dangos bod perfformiad myfyrwyr yn y chweched dosbarth yn dda gyda phob un disgybl yn cyrraedd y trothwy lefel 3. Mae'r sgôr bwyntiau gyfartalog ehangach yn sylweddol uwch nag ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru.

Mae cynnydd disgyblion rhwng y cyfnodau allweddol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2013, roedd yn dda iawn yn y dangosyddion sy'n cynnwys mathemateg a Chymraeg neu Saesneg ond yn foddhaol yn y dangosyddion sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	
I feel safe in my school	169	129 76%	40 24%	0 0%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		44%	52%	3%	1%	
The school deals well with any bullying	169	81 48%	85 50%	3 2%	0 0%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		26%	58%	14%	2%	
I have someone to talk to if I am worried	168	95 57%	68 40%	5 3%	0 0%	Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydwi'n poeni.
		38%	52%	8%	1%	
The school teaches me how to keep healthy	168	86 51%	77 46%	5 3%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		23%	57%	18%	3%	
There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise	168	121 72%	43 26%	4 2%	0 0%	Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		45%	45%	8%	1%	
I am doing well at school	169	81 48%	83 49%	4 2%	1 1%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		32%	62%	5%	1%	
The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems	168	94 56%	71 42%	3 2%	0 0%	Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau.
		38%	55%	6%	1%	
My homework helps me to understand and improve my work in school	169	65 38%	93 55%	11 7%	0 0%	Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		20%	54%	21%	5%	
I have enough books and equipment, including computers, to do my work	169	111 66%	55 33%	2 1%	1 1%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		45%	47%	7%	1%	
Pupils behave well and I can get my work done	169	48 28%	107 63%	13 8%	1 1%	Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		10%	57%	27%	6%	
Staff treat all pupils fairly and with respect	168	91 54%	57 34%	19 11%	1 1%	Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt.
		29%	51%	17%	4%	

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	
The school listens to our views and makes changes we suggest	169	64 38%	86 51%	16 9%	3 2%	Mae'r ysgol yn gwranddo ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu.
		16%	54%	25%	5%	
I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility	169	98 58%	67 40%	4 2%	0 0%	Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosod fy hun a chymryd cyfrifoldeb.
		34%	60%	5%	1%	
The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life	169	98 58%	69 41%	2 1%	0 0%	Mae'r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith.
		36%	54%	9%	1%	
The staff respect me and my background	169	101 60%	63 37%	5 3%	0 0%	Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir.
		37%	54%	7%	2%	
The school helps me to understand and respect people from other backgrounds	168	106 63%	58 35%	4 2%	0 0%	Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill.
		36%	56%	7%	1%	
Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4	54	31 57%	21 39%	2 4%	0 0%	Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4.
		28%	52%	15%	5%	
Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form	31	6 19%	16 52%	7 23%	2 6%	Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth.
		28%	50%	16%	6%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	241	129 54%	102 42%	2 1%	3 1%	5	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		43%	51%	4%	1%		
My child likes this school.	241	114 47%	113 47%	11 5%	2 1%	1	Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		46%	48%	4%	1%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	240	126 52%	97 40%	10 4%	2 1%	5	Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		49%	45%	3%	1%		
My child is making good progress at school.	241	127 53%	101 42%	4 2%	1 0%	8	Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		45%	48%	4%	1%		
Pupils behave well in school.	237	87 37%	110 46%	22 9%	4 2%	14	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		22%	54%	11%	3%		
Teaching is good.	239	100 42%	129 54%	6 3%	1 0%	3	Mae'r addysgu yn dda.
		33%	57%	5%	1%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	201	117 58%	79 39%	3 1%	0 0%	2	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		50%	45%	2%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	203	79 39%	108 53%	8 4%	2 1%	6	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		31%	53%	8%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	238	97 41%	106 45%	17 7%	8 3%	10	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		32%	48%	9%	2%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	241	100 41%	124 51%	9 4%	2 1%	6	Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		33%	53%	7%	1%		
My child is safe at school.	240	130 54%	102 42%	2 1%	3 1%	3	Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		41%	52%	3%	1%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	232	92 40%	99 43%	13 6%	5 2%	23	Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		32%	46%	7%	2%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I am kept well informed about my child's progress.	239	87 36%	121 51%	17 7%	9 4%	5	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		33%	50%	11%	2%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	240	112 47%	108 45%	9 4%	7 3%	4	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		41%	48%	7%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	239	90 38%	113 47%	14 6%	6 3%	16	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		27%	50%	10%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	202	87 43%	102 50%	6 3%	3 1%	4	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		36%	53%	5%	1%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	233	89 38%	104 45%	12 5%	4 2%	24	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		26%	46%	8%	2%		
There is a good range of activities including trips or visits.	239	99 41%	111 46%	19 8%	3 1%	7	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		35%	49%	9%	2%		
The school is well run.	241	121 50%	105 44%	7 3%	2 1%	6	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		40%	48%	5%	2%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Catherine Evans	Arolygydd Cofnodol
Vaughan Williams	Arolygydd Tîm
Gareth Wyn Roberts	Arolygydd Tîm
David Jenkins	Arolygydd Lleyg
Euryn Madoc-Jones	Arolygydd Cymheiriaid
Arwyn Thomas	Arolygydd Cymheiriaid
Catrin Jones Hughes	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau

Dangosydd pwnc craidd (DPC)	Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.
Teuluoedd o ysgolion	Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys.
Lefel 1	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G.
Trothwy Lefel 1	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G.
Lefel 2	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C.
Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg.
Trothwy Lefel 2	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C.
Lefel 3	Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E.
Trothwy Lefel 3	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E.
Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach	Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed.
Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio	Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.
Setiau Data Craidd Cymru Gyfan	Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion

	<p>tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.</p>
--	---